OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 567

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

## RHAN 10

### Datblygiad Anawdurdodedig

**Gwahardd rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad AEA anawdurdodedig**

**44.** Ni chaiff Gweinidogion Cymru nac arolygydd roi caniatâd cynllunio na chydsyniad dilynol o dan adran 177(1) o Ddeddf 1990 (rhoi neu addasu caniatâd cynllunio ar apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi)(**1**) mewn cysylltiad â datblygiad AEA anawdurdodedig oni bai y cynhaliwyd asesiad o'r effaith amgylcheddol mewn cysylltiad â'r datblygiad hwnnw.

(**1**) Diwygiwyd adran 177 gan adrannau 6(3) a 32 o Ddeddf 1991 a pharagraff 24 o Atodlen 7 iddi, a chan adran 123(1), (6) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20) a chan adran 46 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae diwygiad arall nad yw'n berthnasol i'r offeryn hwn.